

# Yr amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Diogelwch Tân

Mai 2020

Ar 4 Mai 2020 cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried a chyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Diogelwch Tân.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 18 Mehefin 2020.

